# ADRODDIAD CANOLFAN NOFIO A LLES ABERTEIFI AT SYLW CYNGOR TREF ABERTEIFI I'W DRAFOD



Just Solutions ar gyfer
Gweithgor ac Ymddiriedolwyr
Pwll Aberteifi

2/1/2022

**CANOLFAN NOFIO A LLES ABERTEIFI**
**ADRODDIAD AT SYLW CYNGOR TREF ABERTEIFI I'W DRAFOD**

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1. Cyflogodd Ymddiriedolwyr Pwll a Neuadd Goffa Aberteifi ymgynghorwyr Just Solutions yn 2021, i gynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl ar gyfer adnewyddu neu uwchraddio'n sylweddol y pwll presennol a'r seilwaith sy'n ei gynnal.

2. Nid awydd i adnewyddu pwll nofio annwyl, ond sy'n heneiddio, yn unig mo'r cynnig cysyniad a ddaeth i'r amlwg. Y nod yw darparu cynnig gweithgareddau cyffrous a chyflenwol (yn yr ystyr ehangaf) i weithio ochr yn ochr â chyfleusterau chwaraeon niferus ac amrywiol y dref.

3. Er mwyn sicrhau'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r cysyniad unigryw hwn, cydnabyddir bod rhaid sefydlu gwahanol ddulliau creadigol, model mwy cynaliadwy, llai o ddyblygu a phartneriaeth wirioneddol ag eraill.

4. Cynigir cyfleuster newydd sy'n cyflwyno'r cyfle i gydleoli a darparu gwasanaethau ar y cyd. Creu arbedion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan ddenu'r nifer a'r ystod fwyaf o ymwelwyr.

5. Bu Ymddiriedolwyr y Pwll a'r Neuadd Goffa yn ystyried yn fanwl y weledigaeth ar gyfer cyfleuster newydd a'r sail resymegol iddo, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r effaith a'r canlyniadau hirdymor y bydd cyfleuster newydd yn eu sicrhau i'r dref a'r cylch. Yn bwysicaf oll, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn mai sefydlu partneriaethau diogel a pherthnasol ag amrywiaeth o randdeiliaid fydd yr allwedd i lwyddiant hirdymor y model i Aberteifi.

6. Paratowyd y papur hwn i gychwyn deialog gyda'r Cyngor Tref, mesur y gefnogaeth ac, yn ddelfrydol, sefydlu partneriaeth wirioneddol i helpu i ddatblygu'r prosiect pwysig hwn i'r dref. Yn blwmp ac yn blaen, daeth yr Ymddiriedolwyr i gydnabod bod opsiwn 'gwneud dim byd', gyda gwaith atgyweirio parhaus fel y bu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bron yn sicr yn peryglu cau a cholli'r pwll yn barhaol o fewn y pum mlynedd nesaf, os nad cyn hynny.

7. Yn hytrach, y weledigaeth a'r sail resymegol bresennol ar gyfer y dyfodol yw:
    a. Creu tirnod, cynnig cyrchfan ar gyfer ffyrdd iach o fyw, sy'n ategu ac yn gwella datblygiad economaidd Aberteifi, gan arwain at deimlad cadarnhaol o les.
    b. Creu atyniad aml-wasanaeth masnachol ac unigryw.
    c. Lleihau dyblygu, darparu ar gyfer cyd-leoliadau a gwasanaethau amlddisgyblaethol a sicrhau'r mwyaf posibl o ymwelwyr, incwm a chynaliadwyedd.
    d. Bod yn gatalydd i ddenu arian ychwanegol gan bartneriaid iechyd, adfywio, masnachol a phartneriaid eraill.
    e. Bod yn gatalydd i ysgogi buddsoddiad yng nghanol y dref ac yn gyffredinol drwy'r dalgylch ehangach.

8. Mae'r briff dylunio amlinellol yn nodi'r gofynion canlynol:
    a. Disodli'r cyfleusterau hen ffasiwn a ddarperir ym Mhwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi.

b. Datblygu cyfleusterau dŵr ochr yn ochr ag ystod eang o wasanaethau lles eraill, gan ategu'r cynnig a ddarperir ar safle'r ysgol.
c. Bodloni ystod eang o gyfleoedd cymdeithasol, iechyd a hamdden ar gyfer grwpiau agored i niwed a grwpiau blaenoriaeth, oedolion, pobl ifanc, plant a theuluoedd.
d. Darparu atyniad tywydd gwlyb i ymwelwyr â'r ardal, sy'n ategu'r cynigion rhanbarthol naturiol.
e. Bod yn ddatganiad unigryw, gan gyfrannu at adfywio parhaus Aberteifi – ysgogi bywyd masnachol a darparu gweithgarwch a lles.
f. Creu adeilad gydag 'ymdeimlad o le' i gyfrannu at well ffurf a chymeriad trefol.

9. Bydd llwyddiant unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol, yn enwedig o ran cyllid trydydd parti, yn dibynnu'n llwyr ar yr effaith a gaiff y cynigion y tu hwnt i adnewyddu pwll nofio yn unig.

## GWELEDIGAETH DDRAFFT AR GYFER ABERTEIFI I'W HYSTYRIED YMHELLACH

10. Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer canolfan ddŵr a lles arfaethedig yn y dyfodol, mae'r ymgynghorwyr wedi paratoi gweledigaeth ddrafft ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch yn y dref yn y gobaith y gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai'r Cyngor Tref ei ystyried yn rhan o'i weledigaeth ehangach ei hun ar gyfer y dref. Paratowyd y weledigaeth Ffyrdd Gweithgar o Fyw hon ar gyfer Aberteifi i ddarparu cyd-destun chwaraeon, hamdden, iechyd a lles ar gyfer datblygu canolfan ddŵr newydd i'r dref a'r cymunedau cyfagos yn ne Ceredigion.

### Gweledigaeth ar gyfer Aberteifi

11. Bod yn boblogaeth iach a gweithgar, sy'n byw mewn cymunedau diogel sydd wedi'u cysylltu'n gymdeithasol gyda thref a phentrefi hyfyw i bobl fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw, wrth ddenu busnesau i fuddsoddi.

12. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon i Aberteifi, bydd gofyn dull gweithredu unedig, gyda chefnogaeth y Cynghorau Sir a Thref, yn cydweithio ochr yn ochr â darparwyr allweddol a sefydliadau cymunedol i gyflawni mewn perthynas â'r un blaenoriaethau. Yn ogystal, bydd 'Hyrwyddwyr' i Aberteifi wedi'u nodi gyda chamau gweithredu dirprwyedig ar gyfer chwaraeon a ffyrdd gweithgar o fyw, ochr yn ochr â'r celfyddydau a diwylliant, twristiaeth a'r economi, treftadaeth a chymuned.

### Gair am y Lle

13. Mae Aberteifi yn ne Sir Ceredigion sy'n ffinio â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'n dref farchnad hanesyddol bwysig, a'i hanes yn rhychwantu dros 900 mlynedd, gan gynnwys bod yn ganolfan i frenhinoedd a phorthladd prysur yn y $19^{eg}$ ganrif. Mae ei Chastell Normanaidd a adferwyd yn ddiweddar yn edrych dros Afon Teifi a dim ond milltir sydd rhwng y dref a'r arfordir, a Bae Ceredigion.

14. Tref farchnad lewyrchus yw hon yng nghanol tirwedd hardd, sef yr ail dref fwyaf yng Ngheredigion gyda thros 4,100 o boblogaeth, sy'n tyfu ychydig, yn ogystal â 30,000 yn rhagor o bobl yn byw yn y dalgylchoedd cyfagos.

15. Ffermio a lletygarwch yw'r ddau sector cyflogaeth mwyaf, ochr yn ochr â thwf diweddar yn y sectorau gofal.

16. Mae'r dref yn ganolbwynt addysg strategol gyda'r Ysgol Uwchradd, a’r Coleg Addysg Bellach cyfagos, mewn safle canolog wrth ymyl Canolfan Hamdden y dref.

17. Gwasanaethir Aberteifi'n dda gan galon fanwerthu brysur ag amrywiaeth o siopau unigryw, orielau, llyfrgell a marchnad dan do. 'Allan o ganol y dref' ceir archfarchnadoedd a pharciau busnes, gyda Chanolfan Gofal Integredig newydd, sy'n darparu amryw wasanaethau iechyd.

18. Mae Aberteifi yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd treftadaeth, diwylliant a chwaraeon, gan gynnwys: Theatr; Canolfan Hamdden; Pwll; Parciau Sglefrio a Chwarae; cyfleusterau chwaraeon ffurfiol ar gyfer Rygbi, Pêl-droed, Bowls, Bocsio, Golff, Marchogaeth; yn ogystal ag amwynderau chwaraeon dŵr, gweithgareddau cefnogol fel clybiau syrffio achub bywyd, rhwyfo, cychod a thanddwr.

**Gair am y Bobl**

19. Mae lefelau gweithgarwch corfforol yn yr ardal, ymhlith plant oedran ysgol, yn uwch na chyfartaledd Cymru, a Cheredigion yn y 4$^{ydd}$ safle allan o 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol (52.5% yn cymryd rhan dair gwaith yr wythnos neu fwy - Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018).

20. Ond mae lefelau cyfranogiad ymhlith oedolion yn gostwng, ac nid ydynt cystal ag ar gyfer pobl ifanc h.y. mae Ceredigion yn y 13$^{eg}$ safle allan o 22 awdurdod yng Nghymru (27% yn cymryd rhan dair gwaith yr wythnos neu fwy - Arolwg Ffyrdd Gweithgar o Fyw 2017). Dywed yr un arolwg nad oedd 41% o oedolion yn cytuno eu bod yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i wersi ysgol, yn ogystal â 41% hefyd yn dweud eu bod yn mwynhau chwaraeon yn yr ysgol dim ond 'ychydig, neu ddim o gwbl'.

21. Mae cyfran uchel o'r boblogaeth yng Ngheredigion dros 65 oed (23% ac yn cynyddu), ond yn ogystal â lefelau gweithgarwch gostyngol gydag oedran, mae Aberteifi ymhlith y trefi â'r lefelau incwm canolrifol isaf. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn sylwi bod 23.2% o blant 4-5 oed yn cael eu nodi fel rhai dros eu pwysau, neu ordew. Mewn rhannau tlotach o'r boblogaeth, mae achosion o afiechyd a lles gwaeth yn anghymesur o uwch.

22. **Mae'r adroddiad cysyniad hwn yn argymell y dylai gweledigaeth lles a ffyrdd gweithgar o fyw ar gyfer Aberteifi a Cheredigion gydnabod dulliau gweithredu a modelau cyfleuster gwahanol a mwy pwrpasol, ond cyflenwol, at amrywiaeth o wahanol ddibenion h.y.**
    a. **anghenion pwysig cyfleusterau chwaraeon, addysgu, ymarfer, hyfforddi, a chystadlu ffurfiol sy'n gwasanaethu gweithgareddau addysg a chwaraeon clwb;**

b. **ar wahân i ganolfannau cymunedol, lles a ffyrdd gweithgar o fyw sy’n anffurfiol a hygyrch sy'n croesawu ystod ehangach o gynulleidfaoedd a grwpiau blaenoriaeth na 'chyfleuster chwaraeon' traddodiadol a ffurfiol.**

## MEDDYLFRYD PRESENNOL CYNGOR SIR CEREDIGION

23. Mae Cyngor Sir Ceredigion (CSC) wrthi'n datblygu cysyniad canolfan les, a'r prosiect enghreifftiol cyntaf yn cael ei gyflwyno yn Llanbedr Pont Steffan. Ystyriaeth y Cyngor yn wreiddiol oedd datblygu'r ganolfan les wreiddiol yn Aberystwyth, ond gohiriwyd hyn oherwydd y Pandemig.

24. O ganlyniad i ymrwymiadau CSC i'r prosiect presennol yn Llanbedr Pont Steffan, ychydig iawn o allu sydd gan y Cyngor i roi unrhyw amser neu ystyriaeth i fodel Aberteifi. At hynny, maent yn disgwyl dysgu o brosiect Lles Gydol Oes Llanbedr Pont Steffan o fewn y 18 mis nesaf ac o ganlyniad nid oes ganddynt unrhyw barodrwydd i fod yn rhan o gynlluniau ar gyfer Aberteifi.

25. Fodd bynnag, ni ddymunai CSC rwystro’r Ymddiriedolwyr rhag datblygu eu cynigion eu hunain, a fyddai ar wahân i gynigion y Cyngor Sir. Ond hoffent i unrhyw gynnig gyflenwi eu cynnig nhw (heb ddyblygu, os oes modd), ond nid yw’r Awdurdod Lleol yn disgwyl dilyn dull ar y cyd.

26. Yn y cyfamser, am fod y pwll nofio presennol yn Aberteifi yn dirywio'n gyflym, nid oes gan yr Ymddiriedolwyr amser i aros i weld sut y gallai'r Cyngor Sir fynd ati i ystyried Aberteifi yn y dyfodol. Mae angen i’r Ymddiriedolwyr, gyda chefnogaeth partneriaid yn Aberteifi, barhau i ddatblygu eu meddwl gan ystyried dull embryonig CSC gyda’r bwriad o sefydlu cyfleuster unigryw a chyflenwol ar ôl troed y pwll nofio presennol.

## GWELEDIGAETH CHWARAEON, YN OGYSTAL Â CHANOLFAN NOFIO A LLES, I ABERTEIFI

27. Mae'r weledigaeth strategol ar gyfer 'Rhaglen Lles Gydol Oes' Cyngor Sir Ceredigion, yn cynnwys canolfan les yn ne'r Sir - cyfleuster sy'n ysbrydoli newidiadau cadarnhaol i ffordd o fyw, yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau statudol, yn cefnogi gweithgareddau dysgu gydol oes, yn cynnig gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, drwy fodelau integredig oedran ac ati.

28. Tybir y bydd gweledigaeth y Sir ar gyfer yr ail boblogaeth fwyaf yn cynnwys darparu canolfan strategol ddeheuol yn Aberteifi, ond cydnabyddir bod y ganolfan gyntaf o'i math yn cael ei datblygu yn Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd (sy’n mynnu ei safle am fod y cynigion ar gyfer Aberystwyth wedi'u gohirio o ganlyniad i ymateb y Cyngor i COVID-19).

29. Mae'r briff amlinellol hwn yn nodi bod y ganolfan strategol yn gynnig gweithgarwch gwahanol iawn i'r cyfleusterau ffurfiol sy’n ofynnol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol wedi'u trefnu, gweithgarwch llythrennedd corfforol, addysgu, hyfforddi, ymarfer a chystadlu ar bob lefel. Gall adolygiad manwl ac ystyriol bennu nad y syniad gorau mo

lleoli sefydliad felly ochr yn ochr â Chanolfan Chwaraeon draddodiadol a ffurfiol, nac yn rhan ohoni.

30. **Yr Hyb Chwaraeon**

   a. Y weledigaeth ar gyfer 'hyb chwaraeon' yw gwasanaethu gweithgareddau chwaraeon dan do ac awyr agored wedi'u trefnu - sef profiad chwaraeon cynhwysol parod. Yn ddiau, gellid rheoli cyfleusterau o'r fath mewn partneriaeth rhwng y darparwr addysg a ffederasiwn chwaraeon cymunedol, yn rhan o weledigaeth y dref ar gyfer safle hamdden cymunedol/ysgol/hyb chwaraeon.
   b. Mae hyn yn wahanol iawn i'r weledigaeth a ddisgrifir fel canolfan iechyd a lles gymunedol, gyda rhesymeg unigryw, seilwaith addas i'r diben a chynigion ategol, ac a ddarperir drwy drefniant rheoli priodol.

31. **Y Ganolfan Les**

   c. Mae gweledigaeth seilwaith gyflenwol, ond ar wahân, ar gyfer canolfan byw’n iach, siop un stop lles cymunedol – sy'n ddeniadol i’r llygad, yn hygyrch i bawb (gan amrywio o'r cyfranogwr petrus ac amharod i'r rhai sy'n gyfforddus o weithgar). Yn weladwy ac yn groesawgar i'r gymuned ehangach ac ymwelwyr - yn hygyrch i bob oedran, gan estyn allan at agendâu iechyd a lles a'u targedu - o'i gymharu â'r cynnig ffurfiol mwy traddodiadol, ar gyfer cwsmeriaid chwaraeon ymroddedig.
   d. Canolfan les gymunedol mewn lleoliad gweledol hygyrch sy'n cynnig profiadau iechyd a lles, cynnig gweithgarwch corfforol a ffitrwydd cymunedol, gan gydleoli nifer o wasanaethau cynghori, gwybodaeth ac ymgynghori ynghyd ag atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, dysgu gydol oes, technoleg, bwyta'n iach a chwarae. Mannau gweithgarwch corfforol deniadol, dwysedd isel, cyflwyniadol h.y. stiwdio ddawns, mannau therapi, ffitrwydd, dulliau dŵr cynnes, ardaloedd chwarae sy'n addas i blant, bwyta'n iach/caffi/peiriant gwerthu.
   e. Cyfleuster sy'n rhwymo'r gymuned ynghyd, gan annog pob oedran i ymgymryd â ffordd iach o fyw. Canolfan gymunedol gynhwysol a fydd yn golygu bod modd rhannu gwasanaethau o dan yr un to, gan leihau costau gweithredu blynyddol yr holl wasanaethau sydd wedi'u cydleoli.
   f. Atyniad lleol, gydag ymdeimlad o le, i gyfrannu at well cymeriad trefol.
   g. Catalydd ar gyfer denu arian ychwanegol gan 'bartneriaid eraill' ac ysgogi buddsoddiad yn y dref.

## GWERTHUSO OPSIYNAU LLEOLI

32. Ystyriwyd nifer o safleoedd ar gyfer datblygu 'cynnig' newydd ochr yn ochr â'r cyfleuster presennol yng nghanol y dref, ac maent fel a ganlyn:

   a. Mae'r Ganolfan Gofal Integredig (ICC) yn ysbyty/canolfan gofal cymunedol gyda gofal cymdeithasol a gwasanaethau meddyg teulu/fferyllfa – sy'n hygyrch mewn car/trafnidiaeth gyhoeddus ar ben bryn - byddai'r tir cyfagos yn ddrud i'w ddatblygu. Profiad 'gyrru iddi', heb fawr o gyfle i ddatblygu canolfan les integredig.

b. Mae safleoedd eraill wedi cynnwys yr hen Farchnad Anifeiliaid; Caeau Chwarae Maes Radley (yr hen farchnad awyr agored); Ffordd Bath House; Ystâd Ddiwydiannol Parc Teifi. Mae’n anodd cyrraedd pob un ohonynt mewn car, neu ar droed, a byddai caffael y tir yn ddrud iawn, cyn ystyried cost yr adeiladu.

c. Mae'r 'Hyb Clybiau Chwaraeon' (cyfleusterau Rygbi, Pêl-droed, Bowls a Thennis, ardaloedd newid a chymdeithasol), ar ochr arall Heol Gwbert i'r Ysgol, yn gysyniad chwaraeon cymunedol sylweddol a gwych, y byddai'n anodd ei symud neu ychwanegu ato, ond dylid ei argymell i'w wella yn rhan o weledigaeth chwaraeon a lles gyffredinol ar gyfer y dref.

d. Mae gan safle'r Ysgol/Coleg/Canolfan Hamdden ddigon o dir, ond nid yw'n lleoliad cymunedol 'croesawgar', hawdd ei gyrraedd na gweladwy. Mae'n anodd cael mynediad drwy feysydd parcio'r Coleg a'r Ysgol, heibio i hen garejys tacsis, adeiladau peirianneg ac addysg heb lawer o leoedd parcio o gwbl, sy’n gwasanaethu canolfan chwaraeon draddodiadol a meysydd chwaraeon ffurfiol, gan gydnabod bod y seilwaith a reolir yn uniongyrchol gan yr ysgol yn cael ei ddiweddaru gan gynyddu ôl troed yr adeiladau:
   i. Y weledigaeth a argymhellir ar gyfer y safle hwn fyddai uwchraddio'r maes artiffisial, peil byr i arwyneb 3G, gan wasanaethu defnydd gan y clwb pêl-droed a’r ysgol, gan arwain efallai at adleoli'r clwb pêl-droed.
   ii. At ei gilydd, dylid ystyried troi’r safle'n hyb chwaraeon ffurfiol sy'n gwasanaethu gweithgareddau chwaraeon dan do ac awyr agored wedi'u trefnu, a reolir orau mewn partneriaeth rhwng y darparwyr addysg a ffederasiwn chwaraeon cymunedol.
   iii. Yn y sefyllfa hon, byddai'r cynnig gweithgarwch corfforol iechyd a lles cyhoeddus h.y. ffitrwydd cymunedol lefel is, atgyfeirio i wneud ymarfer corff ac ati a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, yn cael ei adleoli'n well i ganolfan les gymunedol fwy gweladwy a hygyrch i bawb yng nghanol y dref – **cynnig ar ei newydd wedd wedi'i uwchraddio drwy safle'r pwll nofio presennol**, gyda’r manteision amlwg o wynebu’r cwsmer gyda phresenoldeb yng nghanol y dref, trafnidiaeth gyhoeddus gyfagos, a’r ysgol gynradd leol yn elwa ar fynediad hawdd i ddosbarthiadau nofio.

## BRIFF PERFFORMIAD AR GYFER UWCHRADDIO ADEILAD PWLL NOFIO ABERTEIFI

### Rhagair i'r briff

33. Ym mis Hydref 2021 cynhaliodd Vale Consultancy – Peirianwyr Sifil a Strwythurol – arolwg gweledol o adeilad presennol Pwll a Neuadd Goffa Aberteifi a godwyd yn y 1970au.

34. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y prif adeiladau ffrâm bortal, sef tua 90% o'r adeilad a elwir 'Pwll Nofio Aberteifi', mewn cyflwr rhesymol o ystyried oedran y strwythur, a chydag atgyweiriadau lleol addas, ystyrir bod gan yr adeilad ddefnydd tymor hir yn y dyfodol.

35. At hynny, dywedwyd mai ffactor ychwanegol yn y broses benderfynu sydd ei angen i bennu a ddylid tynnu'r adeilad i lawr a'i ail-adeiladu, neu ei adnewyddu'n helaeth, yw y bydd unrhyw gais cynllunio gydag 'ardal adeiladu newydd' sy'n fwy na 100m2, yn gofyn am gais SAB ar wahân sy'n cynnwys dyluniad manwl o'r draeniad dŵr wyneb.

36. Bydd unrhyw gais SAB yn ei gwneud yn ofynnol gweithredu draenio cynaliadwy (SUDS), y mae'n rhaid ymgorffori llawer ohono ar lefel y ddaear, a/neu ar doeau. Byddai hyn yn ychwanegu costau sylweddol at brosiect adeiladu newydd a gallai effeithio ar yr arwynebedd llawr masnachol sydd ar gael yn dilyn prosiect adeiladu newydd, o gofio bod ôl troed yr adeilad presennol yn gorchuddio perchnogaeth y safle rhydd-ddaliad yn llwyr.

37. I grynhoi, mae'r adroddiad yn nodi bod y strwythur sy'n bodoli - ffrâm bortal goncrit - yn addas i'w uwchraddio (yn amodol ar ddylunio manwl ac adolygiad parhaus), ond mae elfennau'n sicr yn wael o amgylch ymylon y prif strwythur: estyniadau i'r ochr a'r cefn. Felly, gellid gwneud gwaith uwchraddio sylweddol i fodloni'r holl weithgareddau newydd a fyddai'n ysgogi proffil masnachol i’r pwll, gyda goblygiadau llawer llai’r gofynion draenio cynaliadwy newydd wedi’u cynnwys yn y dyluniad manwl (yn amodol ar adolygiad pellach).

38. Byddai adeilad newydd ar y safle yn cael ei lesteirio gan y rheolau cynllunio newydd, a byddai'r gofynion gwanhau draenio yn sicr o fynnu atebion drud, mwy o dir neu lai o ôl troed adeilad. Byddai pob un ohonynt yn cael ei ychwanegu at gost dymchwel a gwaredu deunyddiau.

39. **Gweledigaeth a Sail Resymegol:**
    a. Creu tirnod, cynnig cyrchfan ar gyfer ffyrdd iach o fyw, sy'n ategu ac yn gwella datblygiad economaidd Aberteifi, gan arwain at deimlad cadarnhaol o les.
    b. Creu atyniad aml-wasanaeth masnachol ac unigryw.
    c. Bod yn gatalydd i ddenu arian ychwanegol gan bartneriaid iechyd, adfywio, masnachol a phartneriaid eraill.
    d. Bod yn gatalydd i ysgogi buddsoddiad yng nghanol y dref ac yn gyffredinol drwy'r dalgylch ehangach.

40. **Mae'r briff dylunio amlinellol yn nodi'r gofynion canlynol:**
    a. Uwchraddio'r cyfleusterau hen ffasiwn a ddarperir ym Mhwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi.
    b. Gwella'r cyfleusterau dŵr ochr yn ochr ag ystod eang o wasanaethau lles eraill, gan gyflenwi’r cynnig a ddarperir ar safle'r ysgol.
    c. Bodloni ystod eang o gyfleoedd cymdeithasol, iechyd a hamdden i oedolion a theuluoedd.

d. Darparu atyniad tywydd gwlyb i ymwelwyr â'r ardal, sy'n ategu'r cynigion rhanbarthol naturiol.
e. Bod yn ddatganiad unigryw, gan gyfrannu at adfywio parhaus Aberteifi – ysgogi bywyd masnachol a darparu gweithgarwch a lles
f. Creu adeilad gydag 'ymdeimlad o le' i gyfrannu at well ffurf a chymeriad trefol.

**Cenhadaeth**

41. Bydd y cyfleuster ar ei newydd wedd yn darparu cyfleusterau dŵr a hamdden o ansawdd da, gyda rhaglenni wedi'u cynllunio er budd rhanbarth arfordirol gorllewin Cymru, gan ddarparu profiad pleserus, ysgogol o safon i'r gymuned leol ac i ymwelwyr â'r ardal.

42. Bydd y cyfleusterau'n cynnig gwasanaethau sy'n annog pobl o bob oed, diddordeb a gallu i fwynhau eu hamser hamdden a'u hymweliad â chanol y dref, ynghyd ag annog ymweliadau dychwelyd, datblygu sgiliau ac, yn bwysicaf oll, gwella iechyd a lles cyffredinol y gymuned leol, lle bo'n briodol.

**Meini Prawf Llwyddiant Allweddol y Prosiect**

<u>Swyddogaethol</u>

43. Bod y cyfleuster:
    a. Yn sefydlu 'ymdeimlad o le' drwy greu cyfleuster eiconig mewn man amlwg 'ar gyrion canol y dref'.
    b. Yn gwella'r berthynas rhwng y blaen arfordirol a'r parthau masnachol a phreswyl presennol.
    c. Yn gwella a chyflenwi ffurf ac amwynder trefol y dref - gan gysylltu pensaernïaeth y dref yn weledol â mannau mewnol y cyfleuster.
    d. Yn ymgorffori nodweddion cynaliadwy sy'n 'ddiogel at y dyfodol' sydd wedi'u 'profi', ac yn darparu cynnig gwerth am arian sy'n gyson â thueddiadau datblygu cyfleusterau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
    e. Yn ymgorffori systemau rheoli adeiladu a gwybodaeth cwsmeriaid 'diogel at y dyfodol', gan roi ystyriaeth benodol i'r costau cynnal a chadw, gweithredu a chylch oes parhaus.
    f. Yn datblygu cyfleuster sy'n ddiogel i'w ddefnyddio ac sy'n elwa ar olau naturiol sylweddol, yn ogystal ag awyru da, gan ddarparu lefelau isel o leithder – adeilad sy'n gyfforddus ac yn ddeniadol i'r holl ddefnyddwyr a staff.
    g. Yn darparu dyluniad sy'n cyfrannu at 'uwchraddio' canol tref Aberteifi yn gyffredinol – cyfleuster sydd wedi'i gynllunio i'r safonau uchaf, sy'n bodloni pob agwedd swyddogaethol, gymdeithasol ac esthetig.
    h. Yn sicrhau bod gorffeniadau 'addas at y dyfodol' ym mhob rhan o'r adeilad – gan gynnwys yr holl offer, gan sicrhau y gellir cynnal pob ardal mewn cyflwr 'naturiol' o ddiogel, hylan, glân a thaclus.

Economaidd

44. Darparu cyfleuster sydd:
    a. Yn bodloni cynlluniau ariannol hirdymor yr Ymddiriedolwyr a phartneriaid eraill.
    b. Yn hyfyw, gyda digon o warged gweithredu i gadw i fyny â'r holl gostau cylch oes.
    c. Yn gwneud y gorau o'r gwariant cyfalaf a gymeradwywyd i sicrhau'r gwerth gorau, gyda'r bwriad o leihau costau cylch oes.
    d. Yn cyfrannu at uwchraddio economaidd yr ardal a'r rhanbarth lleol.
    e. Yn cyfrannu at allu Aberteifi i fod yn gyrchfan i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.

Cymdeithasol

45. Datblygu cyfleuster sy'n cefnogi amcan strategol cyffredinol Cyngor Tref a Chyngor Sir Ceredigion (CSC) o adfywio'r dref a'r ardal ehangach.

46. Cynnwys o fewn y cyfleuster ardaloedd gweithgareddau cynhwysol a hygyrch, gan roi cyfle i'r holl breswylwyr ac ymwelwyr ddefnyddio'r holl nodweddion a chymryd rhan yn yr ystod ehangaf o weithgareddau.

47. Darparu cyfleuster sy'n cefnogi awydd CSC i bobl fod yn fwy gweithgar, yn amlach.

48. Darparu cyfleuster sy'n ddigon hyblyg i addasu ac ymateb i anghenion a gofynion newidiol cwsmeriaid yn y dyfodol, yn ogystal â thueddiadau yn y dyfodol.

Amgylcheddol

49. Cyflenwi a gwella'r ffurf drefol weledol gan greu cyn lleied o effaith negyddol â phosibl yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

50. Datblygu adeilad a fydd yn bodloni'r gofynion disgwyliedig a osodir arno yn y dyfodol gan newid yn yr hinsawdd.

51. Ymgorffori'r holl egwyddorion dylunio amgylcheddol a chynaliadwy arfer gorau, lle bo hynny'n ymarferol yn economaidd, gan leihau'r defnydd o adnoddau ac ynni drwy gydol y cyfnod adeiladu, ac i weithrediad hirdymor y Ganolfan.

52. Cyflawni unrhyw waith adeiladu newydd drwy gymhwyso BREEAM, sef dull asesu cynaliadwyedd mwyaf blaenllaw'r byd ar gyfer uwchgynllunio prosiectau, seilwaith ac adeiladau.

## GOFYNION DEFNYDDWYR ALLWEDDOL

53. Rhaid i'r adeilad ar ei newydd wedd fodloni gofynion hirdymor y defnyddiwr, fel y nodir yn y Cynllun Busnes. Yn fyr, maent fel a ganlyn:
    a. Darparu cyfleoedd nofio i bob oedran a gallu – gan gynnwys rhaglenni magu hyder yn y dŵr a dysgu nofio

b. Bydd pwll hydrotherapi ar wahân yn cynnig trefniadau gofal iechyd mewn partneriaeth â darparwyr iechyd lleol a rhanbarthol
c. Cyfleoedd ffitrwydd a gweithgarwch corfforol cyffredinol ar gyfer pob oedran a gallu gan gynnwys atgyfeiriadau meddygol
d. Parthau cyswllt iechyd a lles i ddarparu cyfleoedd a buddion drwy'r gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector
e. Canolfan groeso i bob oed a phob gallu.

54. Paratowyd Perfformiad, Trefniadau Cyffredinol a Briff Dylunio manwl gan Just Solutions a lluniwyd cynrychiolaeth weledol gryno o ofynion allweddol posibl y Cleient a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer y cyfleuster wedi'i uwchraddio gan Gavin Oliver, un o benseiri BillyStudio.

**ATODIAD A**

## Y FFORDD ARFAETHEDIG YMLAEN

55. Sefydlodd a chomisiynodd yr Ymddiriedolwyr grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol i ddatblygu'r ateb cymunedol gorau i gymryd lle adeilad presennol Pwll a Neuadd Goffa Aberteifi. Nodir bod y grŵp prosiect ehangach wedi cytuno'n ddiweddar mai ôl troed presennol canol tref y pwll nofio yw'r lleoliad gorau ar gyfer unrhyw weithgareddau dŵr a chefnogol newydd.

56. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod, fel gwirfoddolwyr, mai prin yw eu gallu i reoli'r hyn sydd eisoes yn sefyllfa heriol a chaled h.y. ymateb i bwysau cynnal a chadw adeilad; gofynion rheoli staff; heriau ariannol; ochr yn ochr â sefydlu strwythur llywodraethu sy'n addas at y dyfodol. Gan gofio hyn, maent wedi cytuno y dylai eu sylw ganolbwyntio ar y busnes presennol ac y dylid comisiynu grŵp ar wahân, gyda briff clir, i helpu i ddatblygu gweledigaeth a phrosiect y dyfodol ac adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolwyr yn rheolaidd.

57. Cylch gorchwyl uniongyrchol grŵp gorchwyl a gorffen y prosiect yw:
    a. Paratoi dull dylunio ar gyfer cyfleuster newydd ar ôl troed yr adeilad presennol.
    b. Paratoi adroddiad i'r Cyngor Tref yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol ac yn ceisio cefnogaeth i ddatblygu ateb i Aberteifi yn y dyfodol.


58. Gyda chefnogaeth y Cyngor Tref, os caiff ei sicrhau, rheoli ymgynghoriad ynghyd ag Ymddiriedolwyr a Staff y Pwll, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyllidwyr allweddol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Sector Gwirfoddol, Addysg, Gweithwyr Proffesiynol a Darparwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cydgysylltiol, ynghyd â CSC, i brofi barn y cyhoedd, ceisio adborth a chael cefnogaeth.

## CASGLIAD A CHAIS I GYNGOR TREF ABERTEIFI

59. Hoffai Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pwll Aberteifi drafod cyflwyniad i'r Cyngor Tref i sicrhau ei gefnogaeth i'r ffordd ymlaen, gan arwain at bartneriaeth a chyfranogiad gwirioneddol o ran datblygu cynigion dylunio ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangaf posibl yn ogystal â thrafodaethau gyda'r holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, lles, dysgu gydol oes, gwybodaeth sydd â diddordeb yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

ATODIAD A

**CYNRYCHIOLIAD GWELEDOL CRYNO O DREFNIADAU CYFFREDINOL (TRWY GAREDIGRWYDD GAVIN OLIVER, PENSEIRI BILLYSTUDIO, ABERTEIFI)**



## CANOLFAN NOFIO A LLES ABERTEIFI
## ADRODDIAD AT SYLW CYNGOR TREF ABERTEIFI I'W DRAFOD




**Y LLAWR GWAELOD**
**ATODLEN YSTAFELLOEDD**

R-Derbynfa
A-Gweinyddu
C-Storfa Glanhawyr
PS-Storfa Pwll
1-Cyntedd mynedfa a phwynt gwybodaeth
2-Stiwdio gweithgareddau – ardal beiciau troelli
3-Ardal chwarae i blant
4-Ardal orffwys/ystafell gyfarfod
5-Y prif bwll
6-Pwll dŵr bas
7-Ystafelloedd newid y pwll nofio
8-Cymorth 1af
9-Toiledau cyhoeddus, gan gynnwys cyfleuster hygyrch
10-Cyfleusterau staff
11- Lifft a grisiau
12-Ystafell ymgynghori ac asesu Sba Iechyd
13-Ystafell newid fach
14-Sba Iechyd
15- Ystafell Beiriannau
16-Ystafell newid hydrotherapi a sba
17- Pwll dull dŵr cynnes/hydrotherapi
18-Mynediad cerbydau
19-Iard wasanaeth
25- Allanfa dân

**CANOLFAN NOFIO A LLES ABERTEIFI**
**ADRODDIAD AT SYLW CYNGOR TREF ABERTEIFI I'W DRAFOD**

**YSTAFELLOEDD Y LLAWR CYNTAF**

ES-Storfa Offer
9-Toiledau cyhoeddus, gan gynnwys cyfleuster hygyrch
11- Lifft a grisiau
20-Stiwdio: Dawns, crefft ymladd, ioga ac ati.
21-Ffitrwydd a Chyflyru
22-Ystafell newid gan gynnwys toiled hygyrch
23-Golygfan pwll nofio
24-Pont Droed i'r Ysgol
25- Allanfa dân

